



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y seithfed adroddiad a'r olaf gan Weinidogion Cymru ar weithredu Rhan 2 (Cyllid) o Ddeddf Cymru 2014

I'w ddwyn gerbron Senedd Cymru a'i gyflwyno i'r Senedd,
yn unol ag Adran 23 o Ddeddf Cymru 2014

Ebrill 2021

Cynnwys

	tudalen
Rhagair	2
Cyflwyniad	3
Trethi Cymru ac Awdurdod Cyllid Cymru	4
Cyfraddau Treth Incwm Cymru	11
Y gallu i greu treth newydd i Gymru	14
Benthyca	18
Addasiad i'r grant bloc a rhagolygon	20
Atodiad 1: Rheoliadau	22
Atodiad 2: Ymgysylltu	23
Atodiad 3: Rhagor o wybodaeth	26
Atodiad 4: Talfyriadau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn	29

Rhagair



Dyma'r seithfed adroddiad a'r adroddiad terfynol am weithredu'r pwerau cyllid o dan Ddeddf Cymru 2014. Yn unol â gofynion adran 23 o'r Ddeddf, gwnaed yr Adroddiad hwn cyn gynted ag y bo'n ymarferol flwyddyn ar ôl y diwrnod y gweithredwyd y darpariaethau olaf – gweithredwyd Cyfraddau Treth Incwm Cymru ym mlwyddyn ariannol 2019-20 – ac felly mae'n cwmpasu cyfnod llawer byrrach na'r adroddiadau blaenorol.

Er ein bod yn parhau ar ein taith tuag at ddarparu'r math o system dreth flaengar a theg yr ydym am ei gweld yng Nghymru, mae'r adroddiad hwn yn cydnabod diwedd y rhaglen waith sydd wedi arwain at gyflwyno dwy dreth ddatganoledig yn llwyddiannus – Treth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi, cyflwyno Cyfraddau Treth Incwm Cymru, a sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru i gasglu a gweinyddu'r ddwy dreth ddatganoledig.

Mae £2.3bn o wariant Llywodraeth Cymru ar wasanaethau cyhoeddus bellach yn cael ei ariannu gan refeniw o'r tair treth Gymreig, gan gryfhau'r llinellau atebolrwydd rhwng Llywodraeth Cymru a'r Senedd a phobl Cymru.

Rydym wedi cyrraedd y pwynt hwn, ar ôl dros ddegawd, gyda chymorth llawer o unigolion a sefydliadau, sydd wedi cyfrannu mewn amrywiaeth o ffyrdd – drwy ymuno â grwpiau cynghori neu ymgysylltu, ymateb i ymgynghoriadau, gwneud sylwadau mewn digwyddiadau neu gyfarfodydd cyhoeddus, ac ysgrifennu ataf i i rannu eu barn a'u profiadau. Rwyf yn ddiolchgar i bawb sydd wedi rhoi o'i amser i helpu. Yn benodol, diolchaf i'r Pwyllgor Cyllid ac Aelodau eraill o'r Senedd sydd wedi craffu ar y darpariaethau ariannol.

Rebecca Evans.

Rebecca Evans AS
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Ebrill 2021

Cyflwyniad

O dan adran 23 o Ddeddf Cymru 2014¹, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru adrodd yn flynyddol ar y cynnydd a wneir ar weithredu'r darpariaethau yn Rhan 2, a hynny tan y bydd blwyddyn wedi mynd heibio ers rhoi'r darpariaethau olaf ar waith.

Cyhoeddir yr adroddiadau bob blwyddyn cyn y bydd blwyddyn wedi mynd heibio ers y diwrnod y cafodd y Ddeddf Gydsyniad Brenhinol (17 Rhagfyr 2014), gan gyhoeddi'r adroddiad terfynol flwyddyn ar ôl y gweithredwyd yr olaf o'r darpariaethau yn Rhan 2, neu cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl hynny.

Dyma'r seithfed adroddiad a'r adroddiad terfynol gan Weinidogion Cymru. Mae'n cael ei gyhoeddi flwyddyn ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol pan gyflwynwyd Cyfraddau Treth Incwm Cymru, sef yr olaf o'r mesurau o dan Ran 2 i gael ei gyflwyno.

Mae adran 23(7) o'r Ddeddf yn datgan bod rhaid i'r adroddiadau blynyddol gynnwys yr wybodaeth ganlynol am y darpariaethau ariannol:

"(a) A statement of the steps that have been taken, whether by the maker of the report or by others, since the making of the previous report (or, in the case of the first report, since the passing of this Act) towards implementation of the provisions of this Part,

(b) A statement of the steps that the maker of the report proposes should be taken, whether by the maker of the report or by others, towards the implementation of the provisions of this Part,

(c) An assessment of the operation of the provisions of this Part that have been implemented,

(d) An assessment of the operation of any other powers to devolve taxes to the Assembly or to change the powers of the Welsh Ministers to borrow money, and of any other changes affecting the provisions inserted or amended by this Part,

(e) A statement of the effect of this Part on the amount of any payments made by the Secretary of State under section 118 of GOWA 2006 (payments into the Welsh Consolidated Fund), and

(f) Any other matters concerning the sources of revenue for the Welsh Government that the maker of the report considers should be brought to the attention of Parliament or the Assembly."

Nid yw'n ofynnol i'r adroddiadau fynd i'r afael â'r adrannau canlynol o Ddeddf Cymru 2014 – adran 10 (Trethdalwyr Cymru at ddibenion nawdd cymdeithasol neu gynnal plant); adran 11 (Diwygiadau i'r diffiniad o drethdalwyr o'r Alban) ac adran 22 (Gweithdrefnau cyllidebol).

¹ Deddf Cymru 2014:
<http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2014/29/contents/enacted>

Trethi Cymru ac Awdurdod Cyllid Cymru

Treth Trafodiadau Tir

Mae adran 15 o Ddeddf Cymru 2014 yn diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 er mwyn galluogi Senedd Cymru² i ddeddfu ar gyfer treth ar drafodiadau sy'n ymwneud â buddiannau mewn tir yng Nghymru. Mae adran 16 ac Atodlen 2 yn diwygio deddfwriaeth y DU i ddiddymu Treth Dir y Dreth Stamp yn y DU mewn perthynas â Chymru. Mae adran 17 yn ymwneud â darparu gwybodaeth am drafodiadau tir yng Nghymru i CThEM.

Mae'r Papur Gorchymyn a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU, law yn llaw â Bil Cymru (Mawrth 2014), hefyd yn datgan y byddai Treth Dir y Dreth Stamp yn 'dirwyn i ben' o fis Ebrill 2018³.

Treth Gwarediadau Tirlenwi

Mae adran 18 o Ddeddf Cymru 2014 yn diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 er mwyn galluogi'r Senedd i ddeddfu ar gyfer treth ar warediadau tirlenwi yng Nghymru. Mae adran 19 yn diwygio Rhan 3 o Ddeddf Cyllid 1996 i ddiddymu Treth Dirlenwi y DU mewn perthynas â Chymru.

Mae'r Papur Gorchymyn a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU, law yn llaw â Bil Cymru (Mawrth 2014), hefyd yn datgan y byddai'r Dreth Dirlenwi yn 'dirwyn i ben' o fis Ebrill 2018.

Defnyddiodd y Trysorlys y pwerau yn adrannau 16 a 19 o Ddeddf Cymru 2014 i orchymyn⁴ bod Treth Dir y Dreth Stamp a Threth Dirlenwi y DU yn cael eu diddymu yng Nghymru ar 1 Ebrill 2018.

Trethi Cymru

1. Ar 1 Ebrill 2018, daeth Deddfau Trethi Cymru⁵ i rym a dechreuodd Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) gasglu'r ddwy dreth sydd wedi'u datganoli'n llawn i Gymru, sef y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi.

Treth Trafodiadau Tir

2. Cyhoeddwyd y cyfraddau a'r bandiau ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir gan Lywodraeth Cymru fel rhan o broses Cyllideb 2018-19. Cytunwyd ar y rheoliadau i

² Mae cyfeiriadau at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriadau at Senedd Cymru, yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

³ *Bil Cymru: atebolrwydd a grymuso ariannol*, Cm 8838, para 16:

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/294471/Wales_Bill_Command_Paper_-_Welsh.pdf

⁴ Deddf Cymru 2014, adrannau 16 a 19 (Diddymu Treth Dir Treth Stamp y DU a Threth Dirlenwi y DU) (Dyddiad Penodedig) Gorchymyn 2018 (O.S. 2018/214).

⁵ Mae Deddfau Trethi Cymru yn cynnwys: Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016; Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017; a Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017.

ddwyn cyfraddau a bandiau'r dreth trafodiadau tir i rym gan y Senedd ar 30 Ionawr 2018⁶.

Prif Gyfraddau Preswyl: Cyfraddau Treth a Bandiau Treth

3. Fel rhan o ymateb Llywodraeth Cymru i'r coronafeirws, ar 27 Gorffennaf 2020 newidiwyd y cyfraddau a'r bandiau ar gyfer prif gyfraddau'r Dreth Trafodiadau Tir am gyfnod penodol o amser. Roedd y cyfraddau a'r bandiau yn y cyfnod pan oedd y dreth wedi'i gostwng dros dro ar waith i ddechrau rhwng 27 Gorffennaf ac 31 Mawrth 2021⁷. Ar 3 Mawrth 2021, cafodd dyddiad gorffen y cyfnod pan oedd y dreth wedi'i gostwng dros dro ei estyn o 31 Mawrth 2021 i 30 Mehefin 2021⁸. O 1 Gorffennaf 2021 ymlaen y cyfraddau a nodir yn nhabl un isod fydd unwaith eto yn berthnasol i'r prif gyfraddau preswyl. Er mwyn i'r newid gael effaith barhaol, rhaid i'r rheoliadau sy'n gwneud y newidiadau gael cymeradwyaeth y Senedd. Cymeradwyodd y Senedd y rheoliadau cyntaf ar 29 Medi 2020 a chymeradwyodd y rheoliadau a oedd yn darparu estyniad i'r cyfnod pan oedd y dreth wedi'i gostwng dros dro ar 23 Mawrth 2021.

Tabl un: Prif gyfraddau preswyl y Dreth Trafodiadau Tir (1 Ebrill 2020 - 26 Gorffennaf 2020, ac o 1 Gorffennaf 2021)

Trothwy prisiau	Cyfradd TTT
£0 i £180,000	0%
Dros £180,000 i £250,000	3.5%
Dros £250,000 i £400,000	5%
Dros £400,000 i £750,000	7.5%
Dros £750,000 i £1,500,000	10%
Mwy nag £1.5m	12%

Tabl dau: Prif gyfraddau preswyl y Dreth Trafodiadau Tir (27 Gorffennaf 2020 – 30 Mehefin 2021)

Trothwy prisiau	Cyfradd TTT
£0 i £250,000	0%
Dros £250,000 i £400,000	5%
Dros £400,000 i £750,000	7.5%
Dros £750,000 i £1,500,000	10%
Mwy nag £1.5m	12%

Cyfraddau Preswyl Uwch: Cyfraddau Treth a Bandiau Treth

4. Penderfynodd Llywodraeth Cymru beidio â darparu unrhyw ostyngiadau dros dro yn y dreth i drethdalwyr sy'n agored i dalu'r cyfraddau preswyl uwch. Felly, arhosodd y cyfraddau a'r bandiau treth yr un fath â'r hyn a godwyd yn wreiddiol o 1 Ebrill 2018 ymlaen pan ddaeth y Dreth Trafodiadau Tir i rym. Nodir y rhain yn nhabl tri isod.

⁶ Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Bandiau Treth a Chyfraddau Treth) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/128).

⁷ Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Amrywio Dros Dro Gyfraddau a Bandiau ar gyfer Trafodiadau Eiddo Preswyl) (Cymru) 2020:

<https://senedd.cymru/laid%20documents/sub-ld13367-em/sub-ld13367-em%20-w.pdf>

⁸ Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Amrywio Dros Dro Gyfraddau a Bandiau ar gyfer Trafodiadau Eiddo Preswyl) (Cymru) (Diwygio) 2020:

<https://senedd.cymru/media/2zkddxz5/sub-ld14189-em-w.pdf>

5. Fodd bynnag, fel rhan o gyllideb ddrafft Cymru a gyhoeddwyd ar 21 Rhagfyr 2020, cynyddwyd y cyfraddau preswyl uwch 1 pwynt canran yr un. Daeth y newid hwn i rym ar 22 Rhagfyr 2020 a darparu rheolau trosiannol i'r trethdalwyr hynny a oedd wedi cyfnewid contractau ar neu cyn 21 Rhagfyr. Nododd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd y newidiadau mewn Datganiad Ysgrifenedig ar drethi datganoledig a threthi rhannol ddatganoledig⁹. Er mwyn i'r newid gael effaith barhaol, rhaid i'r rheoliadau sy'n gwneud y newid gael cymeradwyaeth y Senedd, ac fe'i rhoddwyd ar 2 Chwefror 2021.
6. Nodir y cyfraddau a'r bandiau a oedd mewn grym am y cyfnod hyd at a chan gynnwys 21 Rhagfyr 2020 yn nhabl tri a'r cyfraddau a oedd yn gymwys o 22 Rhagfyr ymlaen yn nhabl pedwar isod.

Tabl tri: Cyfraddau preswyl uwch y Dreth Trafodiadau Tir (hyd 21 Rhagfyr 2020)

Trothwy prisiau	Cyfradd TTT
£0 i £180,000	3%
Dros £180,000 i £250,000	6.5%
Dros £250,000 i £400,000	8%
Dros £400,000 i £750,000	10.5%
Dros £750,000 i £1,500,000	13%
Mwy nag £1.5m	15%

Tabl pedwar: Cyfraddau preswyl uwch y Dreth Trafodiadau Tir (o 22 Rhagfyr 2020)

Trothwy prisiau	Cyfradd TTT
£0 i £180,000	4%
Dros £180,000 i £250,000	7.5%
Dros £250,000 i £400,000	9%
Dros £400,000 i £750,000	11.5%
Dros £750,000 i £1,500,000	14%
Mwy nag £1.5m	16%

Cyfraddau Amhreswyl: Cyfraddau Treth a Bandiau Treth

7. Fel rhan o Gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22 a gyhoeddwyd ar 21 Rhagfyr 2020, cynyddwyd y bandiau treth cyfradd sero sy'n berthnasol i drafodion eiddo amhreswyl o £0-£150,000 i £0-£225,000. Felly, mae'r newidiadau'n berthnasol i'r prif gyfraddau amhreswyl a hefyd y cyfraddau rhent les amhreswyl. Daeth y newidiadau hyn i rym ar 22 Rhagfyr 2020 a darparu gostyngiadau i bob trethdalwr sy'n cwblhau ar neu ar ôl 22 Rhagfyr.
8. Cyhoeddodd y Gyllideb ddrafft hefyd newid i'r swm penodedig o rent perthnasol, gan ei gynyddu 50% o £9,000 i £13,500. Defnyddir y swm rhent perthnasol i gymhwyso rheol yn erbyn osgoi trethi ac mae cynyddu'r swm yr un ganran â'r bandiau treth yn sicrhau y bydd yn gweithredu yn yr un modd ac i'r un graddau, â chyn i'r newidiadau gael eu gwneud.

⁹ <https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-trethi-datganoledig-chyfraddau-treth-incwm-cymru-cyllideb-ddrafft-2021-22>

9. Er mwyn i'r newidiadau i'r cyfraddau a'r bandiau gael effaith barhaol, rhaid i'r rheoliadau sy'n gwneud y newid gael cymeradwyaeth y Senedd, ac fe'i rhoddwyd ar 2 Chwefror 2021. Yna, roedd swm newydd y rhent perthnasol yn gymwys o 4 Chwefror 2021 ymlaen.
10. Nodir y cyfraddau a'r bandiau a oedd mewn grym am y cyfnod hyd at a chan gynnwys 21 Rhagfyr 2020 yn nhabl pump, ac yn nhabl saith mewn perthynas â rhenti les, a'r cyfraddau a oedd yn gymwys o 22 Rhagfyr ymlaen yn nhabl chwech, ac yn nhabl wyth mewn perthynas â rhenti les, isod.

Tabl pump: Prif gyfraddau amhreswyl y Dreth Trafodiadau Tir (hyd 21 Rhagfyr 2020)

Trothwy prisiau	Cyfradd TTT
£0 i £150,000	0%
Dros £150,000 i £250,000	1%
Dros £250,000 i £1,000,000	5%
Mwy nag £1m	6%

Tabl chwech: Prif gyfraddau amhreswyl y Dreth Trafodiadau Tir (o 22 Rhagfyr 2020)

Trothwy prisiau	Cyfradd TTT
£0 i £225,000	0%
Dros £225,000 i £250,000	1%
Dros £250,000 i £1,000,000	5%
Mwy nag £1m	6%

Tabl saith: Cyfraddau rhenti les amhreswyl y Dreth Trafodiadau Tir (hyd 21 Rhagfyr 2020)

Trothwy prisiau	Cyfradd TTT
£0 i £150,000	0%
Dros £150,000 i £2,000,000	1%
Mwy na £2m	2%

Tabl wyth: Cyfraddau rhenti les amhreswyl y Dreth Trafodiadau Tir (o 22 Rhagfyr 2020)

Trothwy prisiau	Cyfradd TTT
£0 i £225,000	0%
Dros £225,000 i £2,000,000	1%
Mwy na £2m	2%

Treth Gwarediadau Tirlenwi

11. Hyd yma, mae cyfraddau Treth Gwarediadau Tirlenwi wedi cyfateb i gyfraddau treth dirlenwi y DU. Cafodd y cyfraddau treth safonol ac is ar gyfer 2021-22 eu gosod eto i fod yr un fath â chyfraddau treth dirlenwi y DU ac fe'u cymeradwywyd gan y Senedd

ym mis Chwefror 2021. Mae'r gyfradd gwarediadau heb awdurdod wedi'i gosod yn uwch na'r gyfradd safonol (cyfradd safonol + 150%), gan greu rhwystr ariannol ychwanegol i bobl sy'n ceisio osgoi eu rhwymedigaethau amgylcheddol a gwaredu gwastraff yn anghyfreithlon. Bydd cyfraddau treth gwarediadau tirlenwi 2021-22 yn cynyddu fel y nodir yn nhabl naw a byddant yn berthnasol i warediadau trethadwy a wneir ar neu ar ôl 1 Ebrill 2021 yng Nghymru.

12. Mae hyn yn parhau â'r polisi o gynnal cysondeb â chyfraddau treth dirlenwi Llywodraeth y DU. Mae'r dull hwn yn rhoi sefydlogrwydd a sicrwydd i'r rhanddeiliaid hynny y mae'r dreth yn effeithio arnynt, ac mae hefyd yn amddiffyn yn erbyn y risg o drosglwyddo gwastraff dros y ffin rhwng Cymru a Lloegr er mwyn manteisio ar gyfraddau is.

Tabl naw: Cyfraddau Treth Gwarediadau Tirlenwi (cyfradd y dunnell) 2021-22

Cyfradd	2021-22
Safonol	£96.70
Is	£3.10
Heb awdurdod	£145.05

Ystadegau chwarterol ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi

13. Mae gwybodaeth am ffurflenni treth a'r refeniw a godir drwy drethi Cymru yn cael ei chyhoeddi'n rheolaidd gan ACC¹⁰. Alldro blynyddol blwyddyn ariannol 2019-20 ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir oedd £260m, a £37m ar gyfer y Dreth Gwarediadau Tirlenwi ar gyfer 2019-20, fel y cyhoeddwyd yng nghyfrifon cyhoeddus ACC¹¹.

Rheoliadau

14. Rhestrir rheoliadau a gyflwynwyd ers i'r adroddiad blaenorol gael ei osod (14 Rhagfyr 2020) yn atodiad 1.

Adolygiadau o'r Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi

15. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried cwmpas a threfniadau adolygiadau annibynnol o'r Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Bydd y rhain yn bodloni ymrwymadau i gynnal adolygiadau o'r ddwy dreth o fewn chwe blynedd ar ôl i'r ddeddfwriaeth dreth wreiddiol gael Cydsyniad Brenhinol – erbyn mis Mai 2023 ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir ac erbyn mis Medi 2023 ar gyfer y Dreth Gwarediadau Tirlenwi.

¹⁰ Y data diweddaraf ar y Dreth Trafodiadau Tir:
<https://llyw.cymru/ystadegaur-dreth-trafodiadau-tir>
 Data ar y Dreth Gwarediadau Tirlenwi:
<https://llyw.cymru/ystadegaur-dreth-gwarediadau-tirlenwi>

¹¹ Cyfrifon Blynyddol ACC 2019-20:
<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-07/awdurdod-cyllid-cymru-cyfrifon-blynyddol-2019-2020.pdf>

Ei gwneud yn bosibl cyflwyno newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru

16. Cafodd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad *Datganoli Trethi: Ei gwneud yn bosibl cyflwyno newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru*¹² ei gyhoeddi ar 21 Rhagfyr 2020. Er bod gwaith ar ddrafftio deddfwriaeth yn parhau i fynd rhagddo, y Senedd nesaf fydd yn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â hyn drwy'r broses deddfwriaethol. Bwriad y gallu i wneud newidiadau i deddfwriaeth treth yn gyflym yw galluogi Llywodraeth Cymru i ymateb i sefyllfaoedd lle dymunir i'r newid ddod i rym ar unwaith neu'n gyflym iawn. Gall newid o'r fath fod yn briodol pan fo angen i Drysorlys Cymru ac Awdurdod Cyllid Cymru gau cynlluniau osgoi treth yn brydlon, neu i alluogi Llywodraeth Cymru i ymateb i newidiadau polisi treth a wneir gan Lywodraeth y DU i drethi'r DU y mae gennym drethi datganoledig cyfatebol iddynt. Yn y sefyllfa hon, byddai'r deddfwriaeth yn rhoi mecanwaith cymesur i Weinidogion Cymru ddiogelu referniw Cymru.

Awdurdod Cyllid Cymru

17. Ysgrifennodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd i ACC ar 2 Ebrill 2019 yn nodi'r ffordd yr oedd yn disgwyl i ACC gael ei weithredu yn ystod y cyfnod rhwng 2019-20 a 2021-22. Ailgadarnhaodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd y blaenoriaethau mewn llythyr i ACC ar 3 Gorffennaf 2020. Mae Cynllun Corfforaethol ACC ar gyfer 2019-22, a gyhoeddwyd ar 14 Mai 2019¹³, yn adlewyrchu'r disgwyliadau cydategol hyn ac yn nodi ym mha ffordd y caiff pob un ei fodloni. Mae'r llythyr cylch gwaith yn amlinellu'r blaenoriaethau canlynol:

- Datblygiad parhaus ACC – adeiladu ar gyflawniadau ACC ac edrych ymlaen at y tymor hwy;
- Cyflawni canlyniadau – datblygu cyfres o fesurau perfformiad gweithredol er mwyn nodi pa mor effeithiol y mae'r system drethi yn gweithio yng Nghymru; a
- Gwarediadau Anawdurdodedig – y dylai ACC dargedu adnoddau mewn perthynas â'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi ar achosion sy'n mynd i'r afael ag effeithiau amgylcheddol ac sy'n rhoi busnesau tirlenwi cyfreithlon o dan anfantais.

18. Mae ACC wedi datblygu'r hyn y mae'n ei alw'n '*Ein Dull o Weithredu*' – ffordd Gymreig o drethu – ac mae ei gynllun corfforaethol yn cynnwys astudiaethau achos ar y ffordd y mae hyn yn gweithio'n ymarferol.

19. Mae'r cynllun corfforaethol yn cynnwys chwe amcan strategol sy'n adlewyrchu disgwyliadau'r Gweinidog ac sy'n canolbwyntio ar helpu trethdalwyr i dalu'r swm cywir o dreth ar yr adeg gywir, yn ogystal ag amcanion i gyfrannu at y gwaith o ddylunio gwasanaethau cyllid Cymru, a manteisio i'r eithaf ar ddata trethdalwyr Cymru.

¹² *Datganoli Trethi i Gymru – Ei gwneud yn bosibl cyflwyno newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru* (Gorffennaf 2020):

<https://llyw.cymru/ei-gwneud-yn-bosibl-cyflwyno-newidiadau-i-ddeddfau-trethi-cymru>

¹³ *Cynllun Corfforaethol ACC 2019-22*:

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/cynllun-corfforaethol-awdurdod-cyllid-cymru-2019-2022.pdf>

20. Gan iddo gael ei sefydlu fel sefydliad cwmwl, roedd modd i wasanaethau digidol ACC barhau i weithredu pan fu llifogydd yn ei bencadlys ym mis Chwefror 2020, a phan oedd yn ofynnol i bobl weithio o bell mewn ymateb i COVID-19, heb fawr ddim tarfu i drethdalwyr, eu cynrychiolwyr, a staff ACC.
21. Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar nifer y trafodiadau eiddo ac mae'n debygol iddo ddylanwadu ar lefelau'r gwastraff a waredwyd yn ystod hanner cyntaf 2020-21¹⁴.
22. Mae ACC wedi sefydlu partneriaeth â Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), a dirprwyodd rai swyddogaethau cymhwysedd Treth Gwarediadau Tirlenwi penodol i CNC ym mis Ionawr 2018. Sefydlwyd tîm gweithredu ar y cyd i weithio gyda gweithredwyr safleoedd tirlenwi awdurdodedig er mwyn sicrhau eu bod yn talu'r dreth gywir, ac mae'r sefydliadau'n cydweithio'n agos i ddatblygu dull ar y cyd o godi treth ar warediadau gwastraff anawdurdodedig. Mae'r gydberthynas hon yn seiliedig ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth newydd sy'n estyn trefniadau ar gyfer y tîm gweithredu ar y cyd tan o leiaf fis Mawrth 2023.
23. Cyhoeddodd ACC ei ail Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar 20 Hydref 2020¹⁵, a oedd yn adrodd ar flwyddyn gyntaf ACC o gynnydd yn erbyn yr amcanion a'r mesurau yng Nghynllun Corfforaethol tair blynedd ACC.

¹⁴ Gweler y manylion yn natganiadau ystadegol diweddaraf ACC:

https://llyw.cymru/ystadegau-ac-ymchwil?field_stats_series_external_organisation%5B543%5D=543

¹⁵ *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ACC 2019-20*:

<https://llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru-adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2019-2020>

Cyfraddau Treth Incwm Cymru

Mae adrannau 8 i 11 o Ddeddf Cymru 2014 yn darparu ar gyfer cyfraddau treth incwm sylfaenol, uwch ac ychwanegol yng Nghymru i'w pennu gan y Senedd drwy benderfyniad, ac yn rhoi diffiniad pellach o "drethdalwyr Cymru".

Pan gafodd Deddf Cymru 2014 ei deddfu'n wreiddiol, roedd yn darparu ar gyfer cynnal refferendwm yng Nghymru ynghylch p'un a ddylai'r darpariaethau treth incwm a nodwyd yn y Ddeddf ddod i rym ai peidio. Yn dilyn hynny, cafodd y darpariaethau hyn mewn perthynas â refferendwm eu dileu gan adran 17 o Ddeddf Cymru 2017¹⁶.

Cadarnhaodd fframwaith cyllidol Llywodraeth Cymru, y cytunwyd arno gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ym mis Rhagfyr 2016, y byddai Llywodraeth Cymru yn cyflwyno Cyfraddau Treth Incwm Cymru yn ystod 2019-20, a hynny'n amodol ar ddileu'r gofyniad am refferendwm.

24. Cyflwynwyd Cyfraddau Treth Incwm Cymru ar 6 Ebrill 2019. Ar gyfer incwm nad yw'n deillio o ddifidend na chynilion, penderfynodd Llywodraeth y DU dynnu 10c oddi ar y tair cyfradd treth incwm – cyfraddau sylfaenol, uwch ac ychwanegol – a delir gan drethdalwyr Cymru¹⁷.
25. Ar 9 Mawrth 2021, cytunodd y Senedd â chynnig Llywodraeth Cymru i bennu Cyfraddau Treth Incwm Cymru ar gyfer 2021-22 ar 10c, er mwyn sicrhau bod y cyfraddau Treth Incwm a delir gan drethdalwyr Cymru yr un peth â'r rheini a delir gan drethdalwyr yn Lloegr a Gogledd Iwerddon¹⁸.
26. Mae CThEM yn parhau i fod yn gyfrifol am gasglu a rheoli Cyfraddau Treth Incwm Cymru. Yn nhermau cyfreithiol a chymhwysedd, erys y dreth hon yn un o drethi'r DU, felly hefyd y trefniadau cysylltiedig ar gyfer lwfansau a rhyddhadau (gan gynnwys y lwfans personol), y trothwyon treth, a'r bandiau. Mae Llywodraeth y DU yn parhau i fod yn gyfrifol am y refeniw sy'n deillio o Dreth Incwm ar gynilion ac incwm difidend gan drethdalwyr yng Nghymru.
27. Ar ôl i Brosiect Cyfraddau Treth Incwm Cymru gael ei roi ar waith yn llwyddiannus, cafodd Bwrdd y Rhaglen Datganoli Trethi ei olynu gan Fwrdd Cyfraddau Treth Incwm Cymru, a gaiff ei gadeirio ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a CThEM. Mae'r Bwrdd yn cwrdd bob chwarter, ac ymhlith yr aelodau y mae swyddogion o CThEM, Trysorlys EM a Llywodraeth Cymru. Hefyd, cynhelir cyfarfodydd cyllid misol i graffu ar gostau Cyfraddau Treth Incwm Cymru a rheoli gwariant busnes fel arfer parhaus. Mae Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn mynd ati'n annibynnol i archwilio gwaith CThEM er mwyn sicrhau llywodraethu da a gwerth am arian. Mae'r trydydd adroddiad¹⁹, a

¹⁶ Cafodd Deddf Cymru 2017 Gydsyniad Brenhinol ar 31 Ionawr 2017:
<http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2017/4/contents/enacted>

¹⁷ Diffinnir trethdalwyr Cymru yn adran 8 o Ddeddf Cymru 2014 (Cyfraddau Treth Incwm Cymru). Fodd bynnag, byddant fel arfer yn bobl sy'n preswyllo yng Nghymru:
<https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2014/29/section/8/enacted>

¹⁸ Gwnaed y cynnig i bennu Cyfraddau Treth Incwm Cymru ar gyfer 2021-22 ar 10c, ar gyfer y gyfradd sylfaenol, y gyfradd uwch a'r gyfradd ychwanegol, gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd:
<https://cofnod.senedd.cymru/Plenary/11183>

¹⁹ Mae adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar gael yma:
<https://www.nao.org.uk/report/administration-of-welsh-income-tax-2019-20/>

gyhoeddwyd ar 21 Ionawr 2021, yn nodi bod y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn fodlon ar y trefniadau sydd gan CThEM ar gyfer gweinyddu Cyfraddau Treth Incwm Cymru, ac mae hefyd yn fodlon bod y trefniadau llywodraethu a'r costau a delir gan Lywodraeth Cymru yn gywir ac yn deg.

28. Mae gweithgor dadansoddol ar dreth incwm ddatganoledig yn goruchwyllo'r gwaith o ddadansoddi ystadegau ar dreth incwm ddatganoledig, gan gynnwys cyhoeddi alldro. Ymhlith aelodau'r grŵp hwn y mae swyddogion o CThEM, Llywodraeth Cymru, y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, Comisiwn Cyllidol yr Alban a Llywodraeth yr Alban.
29. Mae'r gwaith o baratoi systemau CThEM ar gyfer TWE, hunanasesu ar-lein a Rhyddhad wrth y Ffynhonnell wedi'i gwblhau. Elfen olaf y prosiect i weithredu Cyfraddau Treth Incwm Cymru oedd cyflwyno fersiwn benodol ar gyfer Cymru o'r Crynodeb Treth Blynyddol gan gydnabod yr elfen Gymreig o dreth incwm. Rhoddwyd y newidiadau i'r Crynodeb ar waith ym mis Rhagfyr 2020. Mae'r Crynodeb bellach yn dangos swm Cyfraddau Treth Incwm Cymru a delir gan drethdalwyr Cymru ac mae'n cynnwys dolen at gyfrifiannell Cyfraddau Treth Incwm Cymru, a fydd yn darparu dadansoddiad lefel uchel o ble mae cyfraniadau unigol wedi'u dyrannu ar draws gwasanaethau cyhoeddus allweddol. Mae'r gyfrifiannell ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.
30. Mae Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar waith gyda CThEM ar gyfer rheoli Cyfraddau Treth Incwm Cymru²⁰. Mae'n nodi'r gofynion, yr amserlenni a'r mesurau perfformiad ar gyfer gweithredu'r cyfraddau. Bydd yn sicrhau gwasanaeth o ansawdd cyson i drethdalwyr Cymru, ac yn galluogi CThEM a Llywodraeth Cymru i gyflawni eu priod gyfrifoldebau wrth weithredu Cyfraddau Treth Incwm Cymru. Yn ystod haf 2020, aeth swyddogion yn Llywodraeth Cymru a CThEM ati i adolygu'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth, a hynny'n bennaf er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas i'r diben ar gyfer cyfnod 'busnes fel arfer' y broses o weinyddu Cyfraddau Treth Incwm Cymru. Gwnaeth y swyddogion hefyd achub ar y cyfle i adolygu'r trefniadau llywodraethu, costau gweinyddu Cyfraddau Treth Incwm Cymru yn y dyfodol, a'r ddarpariaeth Gymraeg.
31. Fel y nodir yn y Cytundeb Lefel Gwasanaeth, mae'n ofynnol i CThEM gyhoeddi adroddiad bob blwyddyn ar y ffordd y mae'n gweinyddu Cyfraddau Treth Incwm Cymru. Cyhoeddwyd yr Adroddiad Blynyddol cyntaf ar wefan Llywodraeth y DU²¹ ar 29 Medi 2020. Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am waith CThEM i weinyddu Cyfraddau Treth Incwm Cymru, gan drafod:
 1. Gweithgarwch cydymffurfiaeth (gan gynnwys sicrwydd cyfeiriadau).
 2. Casglu referniw a rhoi cyfrif amdano.
 3. Gwasanaeth a chymorth i gwsmeriaid.
 4. Data ar gyfer pennu cyfraddau a rhagolygon.
 5. Data ar gyfer gwaith rheoli arian Llywodraeth Cymru.
 6. Costau rhoi Cyfraddau Treth Incwm Cymru ar waith, ac ailgodi tâl am gostau CThEM.

²⁰ Cytundeb lefel gwasanaeth CThEM ar gyfer gweithredu Cyfraddau Treth Incwm Cymru: <https://www.gov.uk/government/publications/service-level-agreement-for-operation-of-welsh-rates-of-income-tax-by-hmrc.cy>

²¹ *Cyfraddau Treth Incwm Cymru: Adroddiad Blynyddol CThEM 2020:*

<https://www.gov.uk/government/publications/welsh-rates-of-income-tax-hmrc-annual-report-2020.cy>

32. Mae'r Adroddiad Blynyddol yn nodi bod rhoi Cyfraddau Treth Incwm Cymru ar waith dros y tair blynedd rhwng 2017 a 2020 wedi costio cyfanswm o £7.5m. Ers cyhoeddi'r adroddiad blynyddol, ac ar ôl derbyn costau terfynol sy'n gysylltiedig â chreu'r Crynodeb Treth Blynyddol a chau'r prosiect, mae CThEM wedi cadarnhau mai cyfanswm cost gweithredu'r prosiect oedd £7.9m. Mae'r ffigur hwn yn is na'r amcangyfrif gwreiddiol a ddarparwyd gan CThEM sef rhwng £8m a £9m.
33. Amcangyfrifir mai'r costau busnes fel arfer ar gyfer Cyfraddau Treth Incwm Cymru ar gyfer 2020-21 fydd tua £550,000, sy'n is na'r £700,000 a nodwyd ar ddechrau'r flwyddyn.

Y gallu i greu treth newydd i Gymru

Mae adran 6 o Ddeddf Cymru 2014 yn diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 er mwyn gallu greu trethi datganoledig newydd lle bydd Ei Mawrhydi yn gwneud Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor. Ni ellir gwneud argymhelliad i Ei Mawrhydi wneud Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor tan y bydd drafft o'r offeryn statudol, sy'n cynnwys y Gorchymyn, wedi cael ei osod gerbron dau Dŷ Senedd y DU a Senedd Cymru, a'i gymeradwyo ganddynt. Gallai'r rhain fod yn drethi cyfredol y DU y mae Llywodraeth y DU yn eu datganoli i Gymru, neu'n drethi sydd newydd gael eu creu gan Lywodraeth Cymru mewn meysydd lle mae cyfrifoldeb wedi cael ei ddatganoli.

Mae'r Papur Gorchymyn a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU law yn llaw â Bil Cymru (Mawrth 2014) yn rhoi rhagor o fanylion am y modd y byddai cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer trethi newydd, yn y lle cyntaf, yn cael eu hasesu gan Lywodraeth y DU²².

34. Mae Llywodraeth Cymru yn ymchwilio i bedwar syniad newydd o ran trethi: Treth ar Dir Gwag, Treth ar Ddeunydd Plastig Untro, Treth ar Dwristiaeth, a threthiant fel ffordd o ariannu gofal cymdeithasol. Mae'r Dreth ar Dir Gwag yn cael ei defnyddio i brofi'r mecanwaith rhynglywodraethol ar gyfer cyflwyno trethi newydd, tra bod gwaith yn mynd rhagddo ar y tri syniad arall²³.

Y Dreth ar Dir Gwag a'r broses rynglywodraethol ar gyfer trethi newydd

35. Ym mis Mawrth 2020, yn dilyn cytundeb gan Gydbwyllgor y Trysorlysoedd bod cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer 'treth ar dir gwag' wedi'u datblygu'n ddigonol i symud ymlaen i gam nesaf y broses, cyflwynodd Llywodraeth Cymru gais ffurfiol i Lywodraeth y DU am ddatganoli'r cymhwysedd deddfwriaethol yn y maes hwn. Roedd y cais ffurfiol yn unol â'r broses y cytunwyd arni rhwng Gweinidogion Cymru a Gweinidogion y DU ar gyfer datganoli pwerau trethu newydd i Gymru, fel y darparwyd gan Ddeddf Cymru 2014. Ar 19 Awst 2020, ymatebodd Ysgrifennydd Ariannol y Trysorlys gan ddweud y byddai angen rhagor o fanylion eto cyn y gellid bwrw ymlaen â'r cais ffurfiol.
36. Mae profiad Llywodraeth Cymru o symud drwy'r broses wedi bod yn hir ac yn heriol, gyda Thrysorlys EM yn gofyn yn barhaus am fanylion mewn perthynas â'r ffordd benodol y caiff y dreth arfaethedig ei gweithredu – sy'n fater i Gymru – yn hytrach na gwybodaeth am ddatganoli cymhwysedd ar gyfer deddfwriaeth mewn maes trethiant newydd. Mae wedi dod i'r amlwg bod diffygion difrifol yn y broses y cytunwyd arni ar gyfer datganoli cymhwysedd trethu. Fel y mae'r broses ar hyn o bryd, mae'n anodd dychmygu sefyllfa lle y gallai Llywodraeth Cymru lwyddo i gyflwyno'r achos dros gymhwysedd trethu pellach. Mae angen adolygu a diwygio'r broses ar fyrder.

²² Papur Gorchymyn Bil Cymru *Atebolrwydd a grymuso ariannol*, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2014: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/294471/Wales_Bill_Command_Paper_-_Welsh.pdf

²³ Darperir rhagor o fanylion am y dreth ar dir gwag a syniadau newydd eraill o ran trethi yn *Adroddiad ar Bolisi Trethi Cymru 2018*, Llywodraeth Cymru (Hydref 2018), tudalen 18: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-10/adroddiad-ar-bolisi-trethi-cymru-2018.pdf> ac *Adroddiad ar Bolisi Trethu Cymru 2019* (Rhagfyr 2019), tudalennau 23 a 48: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-12/adroddiad-ar-bolisi-trethi-cymru-2019.pdf>

Talu am ofal cymdeithasol

37. Mae ystyriaethau'r Grŵp Rhyngweinidogol ar Dalu am Ofal Cymdeithasol, a gadeirir gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, wedi cael eu llywio gan yr ymrwymiad i wasanaethau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a gwaith ataliol a sefydlwyd gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014; cynllun hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, *Cymru Iachach*²⁴; a'r weledigaeth ar gyfer gwasanaeth di-dor i ddinasyddion.
38. Hefyd, mae strategaeth Llywodraeth Cymru, Ffyniant i Bawb: cynllun gweithredu ar yr economi (2017)²⁵ yn nodi bod gofal cymdeithasol yn un o'r sectorau sylfaen sy'n darparu nwyddau a gwasanaethau hanfodol ac sy'n chwarae rhan bwysig ym mywyddau pobl a chymunedau.
39. O ran materion yn ymwneud ag ariannu gofal cymdeithasol, ateb ar gyfer y DU gyfan fyddai orau gan y gallai ymgorffori'n briodol y rhyng-gysylltiadau pwysig rhwng trethi a budd-daliadau. Fodd bynnag, gan nad yw ateb ledled y DU yn ymddangos yn debygol yn y tymor byr a chanolig, mae angen inni ddatblygu atebion hirdymor cynaliadwy i Gymru. Mae'r Grŵp Rhyngweinidogol wedi gwneud cryn dipyn o waith i ystyried opsiynau ar gyfer gwelliant hirdymor, gan gynnwys archwilio modelau gofal newydd, gwrthbwysio elfennau codi tâl, a gwelliannau i ansawdd gwasanaethau drwy fuddsoddiadau yn y gweithlu gofal cymdeithasol. Byddai angen mwy o fuddsoddiad blynyddol yn y meysydd hyn, ac mae'r Grŵp wedi ystyried y defnydd posibl o drethi yn y tymor hwy er mwyn helpu llywodraeth yn y dyfodol wrth wneud penderfyniadau.
40. Fodd bynnag, mae lledaeniad COVID-19, a'r camau sydd wedi'u cymryd mewn ymateb iddo, wedi arwain at gynnydd sydyn yn lefelau benthyciadau a dyledion y llywodraeth²⁶. Mae'r rhagolygon ar gyfer gweithgarwch economaidd a chyllid y sector cyhoeddus yng Nghymru, a gwledydd eraill, yn parhau i fod yn ansicr iawn. Mae'r amgylchedd cyllidol yn heriol iawn ac mae'r dyfodol yn ansicr dros ben. Daeth Adroddiad Cynaliadwyedd Cyllidol diweddaraf y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol i'r casgliad "mewn bron unrhyw sefyllfa, byddai angen codi referniw treth a/neu leihau gwariant (fel cyfran o incwm cenedlaethol), ar ryw adeg, i roi cyllid cyhoeddus ar lwybr cynaliadwy".²⁷
41. Mae'r pandemig a'r hinsawdd economaidd a chyllidol bresennol wedi cael cryn effaith ar waith y Grŵp Rhyngweinidogol. Daeth y Grŵp i'r casgliad fod ariannu gofal cymdeithasol ar sail treth nawr yn ateb posibl mwy hirdymor ac nad yw'n ateb tebygol yn y dyfodol agos.

²⁴ *Cymru Iachach: cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol:*

<https://llyw.cymru/cymru-iachach-cynllun-hirdymor-ar-gyfer-iechyd-gofal-cymdeithasol>

²⁵ *Ffyniant i Bawb: cynllun gweithredu ar yr economi:*

<https://llyw.cymru/ffyniant-i-bawb-y-cynllun-gweithredu-ar-yr-economi>

²⁶ Amcangyfrifodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol fod lefelau benthyciadau net sector cyhoeddus y DU (ac eithrio banciau'r sector cyhoeddus, neu "PSNB ex") yn £8.8 biliwn ym mis Ionawr 2021, £18.4 biliwn yn fwy nag ym mis Ionawr 2020, sef y lefel fenthyciadau uchaf ym mis Ionawr ers i'r cofnodion misol ddechrau yn 1993 a'r diffyg cyntaf ym mis Ionawr ers 10 mlynedd. Cynyddodd dyled net y sector cyhoeddus (ac eithrio banciau'r sector cyhoeddus, neu "PSND ex") £316.4 biliwn dros 10 mis cyntaf y flwyddyn ariannol hon i £2,114.6 biliwn ddiwedd mis Ionawr 2021, neu tua 97.9% o'r cynnyrch domestig gros; gan gynnal lefel nas gwelwyd ers y chweddegau cynnar.

²⁷ Saesneg yn unig:

<https://obr.uk/fsr/fiscal-sustainability-report-july-2020/>

Treth ar ddeunydd plastig untro

Treth Pecynnau Plastig yn y DU

42. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth y DU wrth ystyried yr opsiynau ar gyfer mynd i'r afael â deunydd plastig a gwastraff diangen, gan gydnabod y manteision sydd ynghlwm wrth fabwysiadu dull cyson o weithredu ledled y DU. Mae hyn wedi cynnwys cefnogi ymgynghoriadau ar Dreth Pecynnau Plastig yn y DU, Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr a Chynllun Dychwelyd Ernes ar gyfer cynwysyddion diodydd.
43. Cyhoeddodd Llywodraeth y DU y byddai'n cynnal ymgynghoriad pellach ar y gwaith manwl o lunio'r dreth ar ddeunydd pecynnu plastig fel rhan o Gyllideb y DU ym mis Mawrth 2020. Ym mis Awst 2020, arweiniodd Llywodraeth Cymru, WRAP Cymru, Trysorlys EM a CThEM ddigwyddiadau ymgysylltu gyda'r nod o annog rhanddeiliaid yng Nghymru i leisio eu barn. Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar lunio polisi ym mis Tachwedd²⁸. Cyflwynwyd y ddeddfwriaeth sylfaenol yn y Bil Cyllid yn 2021 i sefydlu'r dreth a nodi ei nodweddion allweddol. Yn dilyn hyn, cyhoeddir yr is-ddeddfwriaeth a'r canllawiau i roi rhagor o fanylion i gynorthwyo busnesau i baratoi ar gyfer dechrau'r dreth, ac i fodloni'r gofynion newydd o fis Ebrill 2022 ymlaen.

Treth neu dâl ar gwpanau plastig untro

44. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn datblygu sylfaen dystiolaeth er mwyn asesu rhinweddau cyflwyno treth neu dâl ar gwpanau plastig untro. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio gyda Llywodraeth y DU ar waith ymchwil ehangach i feithrin dealltwriaeth well o'r farchnad cwpanau untro a'r defnydd ohonynt. Cyhoeddwyd y strategaeth 'Mwy nag Ailgyrchu' ym mis Mawrth 2021²⁹ ac mae'n nodi cynllun i ddatblygu opsiynau ar gyfer treth neu dâl ar gwpanau plastig untro a chynwysyddion bwyd yng Nghymru – bydd hyn yn cynnwys camau i gael gwared ag eitemau untro diangen gan gynnwys cwpanau plastig untro mewn digwyddiadau yng Nghymru.
45. O fewn y cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr arfaethedig ar gyfer deunydd pacio, bydd cynhyrchwyr gwastraff deunydd pacio sy'n aml yn cael ei daflu, megis pecynnau bwyd cyflym a chwpanau untro, yn gyfrifol am gostau rheoli'r cynhyrchion hyn ar ddiwedd oes. Bydd hyn yn rhoi cymhelliad cryf i'r cynhyrchwyr geisio atal taflu sbwriel. Yn ogystal, bydd yn ofynnol i fanwerthwyr cwpanau untro ddarparu cyfleuster i ddychwelyd cwpanau untro ar eu safle a sicrhau eu bod yn cael eu hailgyrchu.
46. Byddai angen i unrhyw ddarpar fesur i gyflwyno treth neu dâl ar gwpanau diodydd untro gael ei gydlyn'u'n ofalus â'r cynlluniau ar gyfer treth ar becynnau plastig, cynlluniau Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ar gyfer pecynnau a gwaharddiadau ar eitemau plastig untro penodol. Bydd hefyd yn bwysig bod unrhyw effeithiau cymdeithasol ac economaidd posibl yn cael eu hystyried a'u hymgorffori wrth gynllunio polisiâu er mwyn sicrhau effaith gymesur ar draws gwahanol grwpiau cymdeithasol a busnesau yng Nghymru.

²⁸ Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar lunio polisi treth ar ddeunydd pecynnu plastig (Saesneg yn unig):

<https://www.gov.uk/government/consultations/plastic-packaging-tax-policy-design>

²⁹ Strategaeth 'Mwy nag Ailgyrchu', a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2021:

<https://llyw.cymru/mwy-nag-ailgyrchu>

Treth ar dwristiaeth

47. Mae rhywfaint o waith sy'n archwilio'r potensial i godi refeniw drwy Dreth ar Dwristiaeth yng Nghymru yn mynd rhagddo yn dilyn cyfnod pan oedd y gwaith wedi'i atal oherwydd effaith COVID-19. Mater i Lywodraeth nesaf Cymru fydd bwrw ymlaen â hyn os yw'n dymuno. Byddai hyn yn rhan o'r angen i gefnogi'r sector twristiaeth, lletygarwch a digwyddiadau yn ystod yr adferiad.

Benthyca

Gwnaeth adrannau 20 a 21 o Ddeddf Cymru 2014 ddiddymu'r pŵer benthyca o dan Ddeddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975, ac estyn pŵer benthyca Gweinidogion Cymru o dan adran 121 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a hynny o 1 Ionawr 2017. Mae hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i fenthyca hyd at £500 miliwn i reoli llif arian (er mwyn lliniaru amrywiadau mewn derbynebau treth a mynd i'r afael â diffyg cyfatebiaeth dros dro rhwng treth a gwariant) ac, yn amodol ar gymeradwyaeth Trysorlys EM, hyd at £500 miliwn ar gyfer gwariant cyfalaf.

Benthyca Cyfalaf

- O fewn y terfyn o £500 miliwn ar gyfer benthyca cyfalaf, gall Llywodraeth Cymru fenthyca hyd at £125 miliwn y flwyddyn;
- Dim ond o'r Gronfa Fenthyciadau Genedlaethol (drwy Lywodraeth y DU) neu gan fanciau masnachol y gellir benthyca cyfalaf;
- Hyd nes y bydd y pwerau benthyca cyfalaf newydd yn dod i rym (a gynllunnir ar gyfer mis Ebrill 2018), gall Llywodraeth Cymru fenthyca o dan Atodlen 3 i Ddeddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975 er mwyn ariannu gwelliannau i'r M4 yn Ne-ddwyrain Cymru;
- Bydd Llywodraeth y DU yn adolygu terfyn uchaf Llywodraeth Cymru ar gyfer benthyca cyfalaf yn ystod pob Adolygiad o Wariant, a hynny yn sgil amgylchiadau economaidd a chyllidol, yn ogystal â lefel y trethiant datganoledig.

Benthyca Refeniw

- O fewn y terfyn o £500 miliwn ar gyfer benthyca refeniw, gall Llywodraeth Cymru fenthyca hyd at £200 miliwn y flwyddyn;
- Bydd cronfa arian parod newydd yn cynorthwyo Llywodraeth Cymru i reoli ansefydlogrwydd drwy ddarparu ffordd o arbed 'refeniw dros ben', (er enghraifft derbynebau treth sy'n uwch na'r disgwyl). Yr alwad gyntaf o ran gwarged fydd addalu unrhyw arian sydd wedi'i fenthyca ar y pryd, ac, ar ôl hynny, gallai unrhyw arian sy'n weddill gael ei dalu i gronfa arian parod neu ei ddefnyddio i ariannu gwariant cyhoeddus ychwanegol ar fater datganoledig.

Ym mis Chwefror 2015, yn dilyn trafodaethau rhynglywodraethol a thrawsbleidiol, cytunodd Llywodraeth y DU i estyn pwerau benthyca Llywodraeth Cymru i gynnwys dyroddi bondiau³⁰.

Diwygiodd Deddf Cymru 2017 adran 122A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i godi terfyn benthyca cyfalaf Gweinidogion Cymru o £500m i £1b.

Mewn ymateb i gais gan Lywodraeth Cymru³¹, cyflwynodd Llywodraeth y DU Orchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Amrywio Pŵer Benthyca) 2018, a ddaeth i rym ar 1 Rhagfyr 2018. Mae'r Gorchymyn yn diwygio adran 121(1A) o Ddeddf Llywodraeth

³⁰ Papur Gorchymyn *Pwerau at bwrpas: tuag at setliad datganoli sy'n para i Gymru* (Cm 9020), 27 Chwefror 2015, pennod 4, tudalen 51:

<https://www.gov.uk/government/publications/powers-for-a-purpose-towards-a-lasting-devolution-settlement-for-wales.cy>

³¹ Datganiad y Cabinet ynghylch bondiau Llywodraeth Cymru (Hydref 2018): <https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-bondiau-llywodraeth-cymru>

Cymru 2006 i ddarparu y gall Gweinidogion Cymru, gyda chymeradwyaeth y Trysorlys, yn ogystal â benthycu symiau sydd eu hangen arnynt at ddibenion gwariant cyfalaf, hefyd ddyroddi bondiau (heblaw bondiau sy'n drosglwyddadwy drwy gyflenwi).

O dan y fframwaith cyllidol, y cytunodd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU arno ym mis Rhagfyr 2016, cynyddodd y terfyn benthycu cyfalaf blynyddol o £125 miliwn i £150 miliwn pan gyflwynwyd Cyfraddau Treth Incwm Cymru ym mis Ebrill 2019.

Benthycu cyfalaf

48. Defnyddiodd Llywodraeth Cymru ei phwerau newydd i fenthycu am y tro cyntaf yn 2018-19. Benthycwyd £65m oddi wrth y Gronfa Fenthyciadau Genedlaethol er mwyn cefnogi gwariant cyfalaf Llywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn honno. Er y cafodd cynlluniau cyllidebol ar gyfer 2020-21 eu gwneud ar sail defnyddio £125m o fenthyciadau cyfalaf yn 2019-20 a 2020-21, o ganlyniad i ddyraniadau cyllid yn ystod y flwyddyn nid yw Llywodraeth Cymru wedi benthycu rhagor o arian yn ystod y cyfnod hwn. Mae cynlluniau gwariant cyfalaf ar gyfer 2021-22 wedi'u gwneud ar sail defnyddio'r benthyciadau cyfalaf llawn o £150m fel yr amlinellwyd yng Nghyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ar 21 Rhagfyr 2020.
49. Bydd ystyriaeth ofalus yn cael ei rhoi i'r defnydd o fenthycu cynlluniedig yn ystod pob cyfnod cyllidebol, ac ni fydd ond yn cael ei ddefnyddio pan fydd pob ffynhonnell gonfensiynol, ratach o gyllid cyfalaf sydd ar gael wedi cael ei disbyddu.

Benthycu referniw a Chronfa Wrth Gefn Cymru

50. Oherwydd methodoleg y gwrthbwysiad i'r grant bloc y cytunwyd arni ar gyfer treth incwm fel rhan o'r fframwaith cyllidol, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r terfyn benthycu referniw o £500 miliwn a ddarperir gan Ddeddf Cymru 2014 fod yn ddigonol i gwmpasu amrywiadau yn y ffrwd referniw sy'n deillio o bwerau trethu datganoledig.
51. Cyflwynwyd Cronfa Wrth Gefn Cymru ym mis Ebrill 2018, gan olygu bod modd i adnoddau heb eu disbyddu o dderbynebaw treth a'r grant bloc gael eu storio ar gyfer y dyfodol. Mae Cronfa Wrth Gefn Cymru yn cael ei chapio ar £350 miliwn a, bob blwyddyn, mae'n bosibl tynnu £125 miliwn i lawr ar gyfer gwariant referniw a £50 miliwn ar gyfer gwariant cyfalaf. Nid oes unrhyw derfynau blynyddol ar daliadau i'r gronfa wrth gefn.
52. O 1 Ebrill 2020, roedd £335.9 miliwn ar gael yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru i gefnogi gwariant gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol. Mae £175m o'r swm hwn wedi'i dynnu i lawr i gefnogi gwariant 2020-21 yn ystod y flwyddyn.

Addasiad i'r grant bloc a rhagolygon

Addasiad i'r grant bloc

53. Cytunwyd ar y methodolegau ar gyfer addasu grant bloc Cymru yn dilyn datganoli pwerau trethu fel rhan o Fframwaith Cyllidol Llywodraeth Cymru³². Yn wreiddiol, roedd yr addasiadau ar gyfer 2019-20 mewn perthynas â'r Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn seiliedig ar y rhagolygon yn *Economic and Fiscal Outlook* (Hydref 2018) a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol³³. Fe'u diweddarwyd gan ddefnyddio rhagolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2020. Mae'r addasiadau ar gyfer 2020-21 yn seiliedig ar yr un rhagolygon o fis Mawrth 2020 a chawsant wedyn eu diweddarau gan ddefnyddio *Economic and Fiscal Outlook* y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd.
54. Roedd yr addasiad a wnaed pan gyflwynwyd Cyfraddau Treth Incwm Cymru yn hafal i'r referniw yn 2019-20, a oedd yn flwyddyn drosiannol. Ar gyfer 2020-21, mae'r addasiad yn seiliedig ar ragolwg y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ym mis Mawrth 2020. Caiff y data alldro cyntaf ar Gyfraddau Cymru ar gyfer 2019-20 eu cyhoeddi gan CThEM yn nes ymlaen eleni.

Rhagolygon

55. Yn unol â'r Cytundeb Fframwaith Cyllidol, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i drefniant gyda'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol i ddarparu rhagolygon annibynnol mewn perthynas â referniw trethi Cymru ar gyfer Cyllideb 2020-21 a'r tu hwnt. Dechreuodd y trefniant gyda'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ym mis Ebrill 2019 ac mae dogfennau ategol wedi'u cyhoeddi ar wefan y Swyddfa³⁴.
56. Lluniodd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ddau adroddiad i gefnogi proses cyllideb 2020-21. Cyhoeddwyd adroddiad llawn *Rhagolwg Trethi Cymreig* ar yr un pryd â'r Gyllideb ddrafft ym mis Rhagfyr 2019, a chyhoeddwyd diweddariad ochr yn ochr â'r Gyllideb derfynol ym mis Chwefror. Roedd y rhain yn cynnwys rhagolygon ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir, y Dreth Gwarediadau Tirlenwi a Chyfraddau Treth Incwm Cymru, gan ddefnyddio rhagolwg macro-economaidd diweddaraf y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol a data penodol sy'n berthnasol i Gymru. Fel rhan o broses cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22, cyhoeddodd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ei hail *Ragolwg Trethi Cymreig* ochr yn ochr â Chyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21, ar 21 Rhagfyr 2020³⁵.
57. Fel rhan o'r trefniadau newydd, mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol wedi dod yn fwy amlwg yng Nghymru drwy ymgysylltu'n fwy helaeth â sefydliadau ac unigolion â buddiant. Mae hyn wedi cynnwys ymddangosiadau rheolaidd ym Mhwyllgor Cyllid y

³² Y cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar fframwaith cyllidol Llywodraeth Cymru, Rhagfyr 2016:

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-11/cytundeb-ar-fframwaith-cyllidol-llywodraeth-cymru.pdf>

³³ Rhagolwg Cyllidol ac Economaidd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, Hydref 2018 (Saesneg yn unig): <https://obr.uk/efo/economic-fiscal-outlook-october-2018/>

³⁴ Rhagolwg Trethi Cymreig y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol – Rhagfyr 2019: <https://obr.uk/rhagolwg-trethi-cymreig-rhagfyr-2019/>

³⁵ Rhagolwg Trethi Cymreig y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol – Rhagfyr 2020: <https://obr.uk/rhagolwg-trethi-cymreig-rhagfyr-2020/>

Senedd a chyfarfodydd gyda'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd. Cynrychiolydd o Bwyllgor Cyfrifoldeb Cyllidebol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol a roddodd y cyflwyniad agoriadol yng nghynhadledd drethi rithwir Llywodraeth Cymru ym mis Hydref 2020.

58. Am ddwy flynedd gyntaf datganoli trethi, lluniodd Llywodraeth Cymru ei rhagolygon referniw trethi ei hun, wedi'u haswiro'n annibynnol gan Ysgol Fusnes Bangor. Cyhoeddwyd gwerthusiad o ragolygon 2018-19 fel atodiad i Adroddiad ar Bolisi Trethi 2019, ochr yn ochr â Chyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2019. Cafodd gwerthusiad o ragolygon 2019-20 ei gyhoeddi fel rhan o'r Adroddiad Polisi Treth ym mis Mawrth 2021.

Atodiad 1: Rheoliadau

Offerynnau statudol a luniwyd rhwng mis Rhagfyr 2020 a mis Mawrth 2021.

Lluniwyd o dan bwerau Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (a wnaed ym mis Rhagfyr 2020)

Lluniwyd o dan bwerau Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017

Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Bandiau Treth a Chyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2020 (a wnaed ym mis Rhagfyr 2020)

Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Swm Penodedig o Rent Perthnasol) (Cymru) (Diwygio) 2021 (a wnaed ym mis Chwefror 2021)

Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Amrywio Dros Dro Gyfraddau a Bandiau ar gyfer Trafodiadau Eiddo Preswyl) (Cymru) (Diwygio) 2021 (a wnaed ym mis Mawrth 2021)

Atodiad 2: Ymgysylltu

Grŵp Ymgysylltu ar Drethi

Ar ôl i Gyfraddau Treth Incwm Cymru, y Dreth Trafodiadau Tir, a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi gael eu cyflwyno'n llwyddiannus, ac ar ôl i Awdurdod Cyllid Cymru gael ei sefydlu, roedd gwaith Grŵp Cynghorol Trethi Cymru wedi'i gwblhau, a chafodd y grŵp ei ddi-ddymu ym mis Chwefror 2020.

Er mwyn parhau i gynnig fforwm i sefydliadau sy'n cynrychioli busnesau, llywodraeth leol a'r trydydd sector drafod datblygiadau ym maes polisi trethi, mae'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd wedi sefydlu Grŵp Ymgysylltu ar Drethi, ac mae'n ei gadeirio hefyd.

Mae'r Grŵp Ymgysylltu ar Drethi yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sefydliadau canlynol:

- Sefydliad Bevan
- CBI Cymru
- Sefydliad Siartredig Trethiant
- Ffederasiwn Busnesau Bach
- Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr
- Sefydliad y Cyfarwyddwyr
- Cymdeithas y Cyfreithwyr
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Mae cylch gwaith y grŵp, a gyfarfu am y tro cyntaf ym mis Tachwedd 2020, fel a ganlyn:

- i) Rhoi sylwadau ar sut y mae datblygiadau presennol a newydd ym maes polisi trethi yn effeithio ar gymunedau a busnesau yng Nghymru;
- ii) Ystyried cynnwys cynllun gwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer polisi trethi;
- iii) Cymryd camau ymarferol i gefnogi gweithgarwch ymgysylltu sydd â'r nod o wella lefelau o ymwybyddiaeth, gwybodaeth, a dealltwriaeth mewn perthynas â threthi Cymru, a pholisi a gweinyddiaeth trethi, ymysg pobl a busnesau yng Nghymru.

Mae rhagor o wybodaeth am y Grŵp Ymgysylltu ar Drethi ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru³⁶.

Cynhadledd trethi

Ym mis Hydref 2020, cynhaliodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd drydedd Gynhadledd flynyddol Llywodraeth Cymru ar Drethi Cymru. Cynhaliwyd y digwyddiad ar-lein eleni, oherwydd y cyfyngiadau ar gyfarfodydd cyhoeddus yn ystod pandemig COVID-19. Roedd mwy na 100 o bobl yn bresennol o blith ystod o randdeiliaid o fyd busnes, y sector cyhoeddus, academia a'r trydydd sector. Roedd y cyflwyniadau'n trafod: y senarios economaidd a chyllidol yn ystod pandemig COVID-19, rheoli risg trethi, ymchwil i agweddau'r cyhoedd tuag at dreth, profiad Awdurdod Cyllid Cymru o weithredu gwasanaeth referniw yn y cwmwl, a sesiwn holi ac ateb.

³⁶ Grŵp Ymgysylltu ar Drethi:
<https://llyw.cymru/grwp-ymgysylltu-ar-drethi>

Gweithgarwch ymgysylltu Awdurdod Cyllid Cymru

Mae Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) wedi datblygu '*Ein Dull o Weithredu*' er mwyn esbonio sut yr hoffai gydweithio â'i holl randdeiliaid – gan gynnwys trethdalwyr, eu cynrychiolwyr, cyrff proffesiynol a'r cyhoedd yn fwy cyffredinol, cydweithwyr yn y llywodraeth a sefydliadau partner – er mwyn sicrhau y caiff trethi eu casglu a'u rheoli mewn ffordd sy'n gefnogol ac yn deg, ac yn sicrhau'r gwerth gorau am arian i'r cyhoedd yng Nghymru. Mae gweithredu mewn ffordd a arweinir gan bartneriaeth yn hanfodol i'r ffordd y mae ACC yn casglu ac yn rheoli'r trethi datganoledig yng Nghymru.

Fel rhan o '*Ein Dull o Weithredu*', mae ACC yn ymgymryd â gweithgarwch ymgysylltu parhaus, dwyffordd â rhanddeiliaid. Mae'r gweithgarwch hwn yn cynnwys cynnal fforymau trethi ledled Cymru er mwyn cynnig cymorth, gwrando ar adborth a phrofi syniadau ynghylch newidiadau posibl i wasanaethau. Mae'r sesiynau, a gynhelir ar ffurf gweithdai, yn cynnig help a chynghor ymarferol, er enghraifft, i gyfreithwyr a thrawsgludwyr sy'n llenwi ffurflenni treth sy'n ymwneud â thrafodiadau tir. Mae ACC yn cynnal digwyddiadau gyda changhennau lleol Cymdeithas y Cyfreithwyr ac yn cynnal ei weminarau ei hun – mae'r gweminarau wedi bod yn ffordd lwyddiannus iawn o gyrraedd nifer mawr o bobl yn ystod pandemig COVID-19. Er mwyn cefnogi gweithredwyr safleoedd tirlenwi, mae tîm gweithrediadau ACC yn rhoi cymorth uniongyrchol i'w helpu i ffeilio a thalu treth gwarediadau tirlenwi.

Mae ACC hefyd yn rhannu gwybodaeth ddefnyddiol ar ei dudalennau gwe (llyw.cymru/acc) drwy lwyfan LLYW.CYMRU Llywodraeth Cymru. Mae'r lwyfan hwn yn cynnal system dreth ddigidol ACC yn ogystal â gwybodaeth, gan gynnwys canllawiau technegol ac adroddiadau corfforaethol. Mae ACC yn defnyddio dulliau cyfathrebu eraill i ymgysylltu â'i gynulleidfaoedd. Mae hyn yn cynnwys ffrydiau Twitter (@ACCtrydar ac @WRAtweet), proffil LinkedIn dwyieithog, ac e-gylchlythyr sy'n rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf am weithgarwch corfforaethol.

Mae adborth wrth wraidd y gwaith a wna ACC – er enghraifft, mae adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth yn llywio newidiadau i wasanaethau. Defnyddir arolygon yn bennaf i gasglu adborth ar draws nifer o sianeli, gan gynnwys tudalennau gwe, system dreth ar-lein, ffurflenni ar-lein a thrwy dîm y ddesg gymorth.

Ffyrdd eraill o gadw mewn cysylltiad

Mae Trysorlys Cymru yn gweithio gyda sefydliadau yng Nghymru i ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth inni ddatblygu polisi trethi a rhaeadru cynnwys i aelodau a rhwydweithiau. Os hoffech gael cyfraniad gan Drysorlys Cymru ar unrhyw agwedd ar ddatganoli cyllidol, anfonwch e-bost i: TrysorlysCymru@llyw.cymru

Caiff datganoli trethi yng Nghymru ei hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol drwy gyfrifon Twitter Trysorlys Cymru @TrysorlysCymru ac @WelshTreasury, a thrwy'r hashnodau #TrethiCymru #WelshTaxes.

Mae tudalennau Trysorlys Cymru ar wefan Llywodraeth Cymru yn cynnig rhagor o wybodaeth am ddatganoli trethi yng Nghymru, gan gynnwys cyhoeddiadau i'w darllen neu eu lawrlwytho – cyhoeddiadau ffurfiol a ffeithlenni a thafleuni: llyw.cymru/trethi-cymru

Defnyddir amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu, gan gynnwys ffeithluniau, cardiau Twitter a Doopoll i gyfathrebu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Gellir dod o hyd i fideo sy'n darparu gwybodaeth am drethi a gwariant yng Nghymru ar sianel YouTube Llywodraeth Cymru³⁷.

³⁷ <https://www.youtube.com/watch?v=IzRjhLyZRko>

Atodiad 3: Rhagor o wybodaeth

Ceir rhagor o wybodaeth am ddatganoli trethi i Gymru ar y rhynggrwyd.

Cefndir

Y Comisiwn Annibynnol ar Ariannu a Chyllid i Gymru (Comisiwn Holtham)

Sefydlwyd y Comisiwn gan Lywodraeth Cymru er mwyn ystyried y dull ariannu yng Nghymru a'r modd y gellid ei wella, gan gynnwys yr achos dros ddatganoli pwerau trethu a benthyca. Cyhoeddodd y Comisiwn ddau adroddiad gydag argymhellion (2009 a 2010). Mae'r rhain, ynghyd â deunydd arall a gyhoeddwyd gan y Comisiwn, i'w cael yn: <https://llyw.cymru/trethi-cymru#AdroddiadauComisiwnHoltham>

Y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru (Comisiwn Silk)

Gofynnwyd i Gomisiwn Llywodraeth y DU ystyried trefniadau ariannol a chyfansoddiadol Cymru. Rhoddodd ei adroddiad cyntaf (2012) sylw i'r achos dros ddatganoli pwerau trethu a benthyca, yn ogystal â newidiadau sefydliadol cysylltiedig: <https://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20140605075134/http://commissionondevolutio ninwales.independent.gov.uk/cy/>

Llywodraeth Cymru a Senedd Cymru

Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016

Mae'r Ddeddf hon yn rhoi fframwaith cyfreithiol ar waith ar gyfer casglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru, gan gynnwys sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru (ACC): <https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/6/contents/enacted>

Ymgynghoriad sydd wedi dod i ben, gan gynnwys crynodeb o'r ymatebion, a gynhaliwyd cyn mynd ati i ddatblygu deddfwriaeth trethi: <https://llyw.cymru/casglu-rheoli-trethi-datganoledig-yng-nghymru>

Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017

Mae'r Ddeddf hon yn darparu ar gyfer cyflwyno Treth Trafodiadau Tir o fis Ebrill 2018, ac yn cynnwys mesurau i fynd i'r afael ag achosion o osgoi trethi datganoledig: <https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2017/1/contents>

Ymgynghoriad sydd wedi dod i ben, gan gynnwys crynodeb o'r ymatebion, a gynhaliwyd cyn mynd ati i ddatblygu deddfwriaeth trethi: <https://llyw.cymru/datganoli-trethi-yng-nghymru-treth-trafodiadau-tir>

Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

Mae'r Ddeddf hon yn darparu ar gyfer cyflwyno Treth Gwarediadau Tirlenwi o fis Ebrill 2018: <https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2017/3/contents/enacted>

Ymgynghoriad sydd wedi dod i ben, gan gynnwys crynodeb o'r ymatebion, a gynhaliwyd cyn mynd ati i ddatblygu deddfwriaeth trethi:

<https://llyw.cymru/datblygu-treth-gwarediadau-tirlenwi>

Ei gwneud yn bosibl cyflwyno newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru

Bwriad y gallu i wneud newidiadau i ddeddfwriaeth treth yn gyflym yw galluogi Llywodraeth Cymru i ymateb i sefyllfaoedd lle dymunir i'r newid ddod i rym ar unwaith neu'n gyflym iawn. Er bod gwaith ar ddrafftio deddfwriaeth yn parhau i fynd rhagddo, y Senedd nesaf fydd yn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â hyn drwy'r broses ddeddfwriaethol.

Cafodd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad *Datganoli Trethi: Ei gwneud yn bosibl cyflwyno newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru* ei gyhoeddi ar 21 Rhagfyr 2020.

<https://llyw.cymru/ei-gwneud-yn-bosibl-cyflwyno-newidiadau-i-ddeddfau-trethi-cymru>

Fframwaith polisi trethi, cynlluniau gwaith ac adroddiadau Llywodraeth Cymru

Disgrifir dull polisi Llywodraeth Cymru mewn perthynas â threthi yng Nghymru yn y *Fframwaith Polisi Trethi*, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2017. Mae cynlluniau gwaith ac adroddiadau cynnydd yn disgrifio materion dan ystyriaeth, ac yn darparu gwaith dadansoddi, canfyddiadau a chasgliadau sy'n dod i'r amlwg:

<https://llyw.cymru/trethi-cymru#Fframwaithpolisitrethi>

Llywodraeth a Senedd y DU

Deddf Cymru 2014

Deddfwriaeth y DU yn paratoi'r ffordd ar gyfer datganoli pwerau trethu a benthyca:

<http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2014/29/contents/enacted>

Papur Gorchymyn 'Atebolrwydd a grymuso ariannol'

Cafodd rhai agweddau ar y trefniadau ar gyfer datganoli pwerau trethu a benthyca (er enghraifft y dyddiadau targed, mynediad cynnar at fenthyca a'r broses o greu trethi datganoledig newydd) eu hegluro ym Mhapur Gorchymyn Llywodraeth y DU, Bil Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2014:

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/294471/Wales_Bill_Command_Paper_-_Welsh.pdf

Papur Gorchymyn, 'Pwerau at bwrpas: tuag at setliad datganoli sy'n para i Gymru'

Roedd y papur hwn, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2015, yn ymrwymo Llywodraeth y DU i gyflwyno lefel waelodol o gyllid o ran y cyllid cymharol y mae'n ei roi i Lywodraeth Cymru; i ystyried yr achos dros ddatganoli rhagor o bwerau i'r Senedd mewn perthynas â'r dreth teithwyr awyr, ynghyd â'r opsiynau ar gyfer gwneud hynny; ac i alluogi Llywodraeth Cymru i ddyroddi bondiau:

<https://www.gov.uk/government/publications/powers-for-a-purpose-towards-a-lasting-devolution-settlement-for-wales.cy>

Y cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar fframwaith cyllidol Llywodraeth Cymru

Mae'r fframwaith hwn, a gyhoeddwyd ar 19 Rhagfyr 2016, yn disgrifio'r trefniadau cyllido i gefnogi'r broses o weithredu'r darpariaethau cyllidol yn Neddf Cymru 2014 a Deddf Cymru 2017:

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-11/cytundeb-ar-fframwaith-cyllidol-llywodraeth-cymru.pdf>

Deddf Cymru 2017

Cafodd Deddf Cymru 2017, a oedd yn dileu'r gofyniad am refferendwm ar Gyfraddau Treth Incwm Cymru, ac yn cynyddu'r terfyn benthyca cyfalaf ar gyfer Llywodraeth Cymru, Gydsyniad Brenhinol ar 31 Ionawr 2017:

<http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2017/4/contents/enacted>

Atodiad 4: Talfyriadau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn

ACC	Awdurdod Cyllid Cymru
CNC	Cyfoeth Naturiol Cymru
CThem	Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi
GOWA 2006	Deddf Llywodraeth Cymru 2006
PSNB ex	Lefelau benthyciadau net y sector cyhoeddus, ac eithrio banciau'r sector cyhoeddus
PSND ex	Dyled net y sector cyhoeddus, ac eithrio banciau'r sector cyhoeddus
TTT	Treth Trafodiadau Tir
TWE	Talu Wrth Ennill